**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am dy llythyr dyddiedig 25 Mawrth mewn perthynas â staffio ac adnoddau yn Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer natur. Rwyf wedi ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor isod.

*1. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael ag aelodau'r Cabinet am ddyrannu adnoddau staffio yn y maes polisi hwn?*

Mewn ymateb i raddfa'r argyfwng hinsawdd a natur, nododd y Rhaglen Lywodraethu gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cyflawni ym mhob rhan o bolisi'r amgylchedd a hinsawdd. Mae hyn wedi golygu blaenoriaethu a symud gwaith ac adnoddau dros gyfnod pum mlynedd y Rhaglen Lywodraethu er mwyn ymateb i flaenoriaethau'r Cabinet a meysydd blaenoriaeth uwch y Prif Weinidog. Diben hyn yw galluogi cynnydd a sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgarwch beunyddiol sylweddol, nad yw'n fater o ddewis ac y mae rhaid sicrhau adnoddau ar ei gyfer, yn y maes polisi hwn sy'n cael ei reoleiddio'n drwyadl. Canolbwyntir adnoddau ar y blaenoriaethau a nodwyd gan y Cabinet a'r Prif Weinidog

*2. Allwch chi roi manylion am y lefelau staffio a neilltuwyd i helpu i ddatblygu targedau bioamrywiaeth ers dechrau'r tymor hwn yn y Senedd? Sut mae hyn wedi newid dros amser?*

Yn 2023 cytunodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd ar achos busnes dros fuddsoddi mewn rolau arbenigol i gynghori ar dargedau bioamrywiaeth. Mae'r staff arbenigol a benodwyd i'r rolau hyn wedi bod yn canolbwyntio ar bolisi targedau bioamrywiaeth er mwyn llywio'r Bil i ddechrau, ac maent bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu'r targedau eu hunain.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

*3. Pa gyfyngiadau penodol ar adnoddau sydd wedi effeithio ar hynt y gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru'r cyfyngiadau hyn?*

Mae maint y tîm polisi wedi bod yn gyfyngiad o ran adnoddau. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu, gan gynnwys penodi i swyddi arbenigol fel y nodwyd uchod, ond mae angen gwneud y gwaith o gam i gam o hyd er mwyn gallu ei reoli am nad yw wedi bod yn bosibl gwneud gwaith manwl ar ddatblygu targedau ar yr un pryd â llunio'r polisi a drafftio'r ddeddfwriaeth.

Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar y mewnbwn polisi i ddatblygiad y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth. Bu staff polisi a staff arbenigol sy'n arbenigo mewn ecoleg a meysydd cysylltiedig yn canolbwyntio ar ddatblygu'r polisi a'r Papur Gwyn, ymgysylltu â rhanddeiliaid a mireinio'r polisi yng ngoleuni'r adborth a gafwyd o'r gwaith ymgynghori. Yna symudwyd y ffocws i ganolbwyntio ar ddatblygu'r Bil a'r ddogfennaeth gysylltiedig wrth barhau i fynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r cam hwn wedi cynnwys ystyried yn benodol sut y dylid darparu ar gyfer targedau yn y Bil ynghyd â datblygu cynigion manwl ar gyfer yr hyn a ddylai fod ar wyneb y Bil a'r hyn y dylid darparu ar ei gyfer mewn Rheoliadau.

*4. O ystyried bod tîm ymroddedig bellach wedi'i sefydlu, pa gapasiti ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i sicrhau bod y targedau'n cael eu datblygu'n amserol?*

O ystyried y pwysau o ran adnoddau, rydym wedi sefydlu Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth i helpu i ddatblygu targedau bioamrywiaeth yn amserol.

Mae'r Panel yn cynnwys arbenigwyr o ddisgyblaethau gwahanol mewn meysydd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys cynghorwyr sydd ag arbenigedd mewn dŵr, economi, addysg ac ymchwil gymdeithasol, yn ogystal â bioamrywiaeth ddaearol, dŵr croyw a'r môr. Ymhlith yr aelodau y mae 17 o academyddion, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), sef y corff cyhoeddus sy'n rhoi cyngor ar gadwraeth natur ledled y DU ac yn rhyngwladol, a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan aelodau'r Panel arbenigedd mewn pynciau fel monitro, modelu, rheolaeth ymarferol, a pholisi. Byddwn yn gallu manteisio ar yr arbenigedd hwn wrth inni ddatblygu targedau.

Bydd y Panel yn sicrhau cydbwysedd o ran arbenigedd perthnasol annibynnol ac yn darparu cyngor, argymhellion ac adolygiad gan gymheiriaid arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy gydol y broses o greu targedau, ar y method ar gyfer creu targedau a chynnwys y targedau bioamrywiaeth statudol yng Nghymru, yn ogystal ag ar datblygu dangosyddion.

*5. Pa brosesau sydd ar waith i asesu a yw dyraniadau staffio o fewn adrannau perthnasol yn ddigonol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru?*

Mae ystyried adnoddau yn rhan o arferion rheoli arferol Llywodraeth Cymru. Yn y maes hwn, cynhelir trafodaethau ar adnoddau ar lefel Grŵp a Chyfarwyddiaeth er mwyn asesu blaenoriaethu ar unrhyw adeg. Cynhelir trafodaethau hefyd â Gweinidogion y

Cabinet ynghylch sut y dylid cydbwyso adnoddau cyfyngedig yn nhermau blaenoriaethau'r Llywodraeth.

Mae ymrwymiadau bioamrywiaeth yn estyn ar draws meysydd. Er mwyn galluogi prif ffrydio'r ymrwymiadau hyn ar draws Llywodraeth Cymru, rydym wedi datblygu ac ariannu cyflwyno'r cwrs Nabod Natur. Mae hyn yn helpu meysydd polisi gwahanol i ddeall pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r camau y gallant eu cymryd yn eu meysydd eu hunain i helpu i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth.

Mae adnoddau hefyd ar gael ar gyfer blaenoriaethau penodol. Er enghraifft, mae adnodd ychwanegol yn yr adran gynllunio i arwain ar ddatblygu uwchgynllun Gwastadeddau Gwent.

*6. Pa fecanweithiau sy'n bodoli i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn eich adran yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth ac yn atal prinder adnoddau rhag rhwystro datblygiadau polisi allweddol yn y dyfodol?*

Mae cryn dipyn o amser ac ymdrech wedi'u buddsoddi i wella data a chynllunio'r gweithlu, yn gorfforaethol ac mewn adrannau unigol, er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau wedi'u trefnu i gyflawni cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru. Ond mae'n bwysig cydnabod bod capasiti'n gyfyngedig a bod pwysau cystadleuol sylweddol ar adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru ac o fewn portffolios unigol. Bydd angen blaenoriaethu gwaith a gweithio o gam i gam o hyd; dyna sy'n digwydd yn rheolaidd ar bob lefel.

Rwy'n hyderus bod yr ymateb a ddarparwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â chwestiynau'r Pwyllgor ac yn pwysleisio ein hymrwymiad i fioamrywiaeth ac adfer natur. Mae croeso ichi gysylltu â mi os hoffech gael unrhyw wybodaeth ychwanegol neu eglurhad pellach. Hoffwn ddiolch ichi a'r Pwyllgor am barhau i ymgysylltu ar y mater pwysig hwn.

Yours,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en